Y danadl poethion

Parch at fywyd / Dod i benderfyniad

Doedd dim dwywaith bod rhaid cael gwared â'r danadl poethion i gyd o ben draw'r ardd. Rhedodd Manon i'r tŷ yn sgrechian, "Mam, Mam mi ydw i wedi cael fy mhigo gan y danadl poethion yna. Mae nghoesau i'n goch i gyd." Roedd hi'n dal i sgrechian a chrio.

"Aros am funud bach i mi gael gweld," meddai'r fam wrthi.

Ond dal i grio a sgrechian oedd Manon.

"Tyrd yma, i mi gael gweld," meddai Mam wrthi wedyn gan ei chodi ar ei glin. Roedd y llosgiadau yn amlwg iawn ar ei choesau. Roedden nhw'n wrymiau cochion ac wedi chwyddo'n lympiau.

"Eistedd di fan hyn am funud, mi a'i i chwilio am ddail tafol i'r ardd." meddai'r fam wrthi.

Eisteddodd Manon ar y gadair yn dal i ochneidio a'r dagrau'n rhedeg i lawr ei bochau poethion.

Rhwbiodd ei mam y dail tafol ar y llosgiadau.

"Ydio'n well rwan?" gofynnodd.

"Ydi," meddai Manon dan ddal i ochneidio.

"Yli mi wnai ofyn i dad ddadwreiddio'r danadl poethion 'na i gyd, pan ddaw o adra heno. Iawn, dos di allan i chwarae rwan, ond gwylia di na dei di ddim ar gyfyl y danadl poethion yna."

Roedd dydd Sadwrn, y diwrnod canlynol, yn ddiwrnod braf, heulog. Roedd Manon a'i thad yn yr ardd.

"Manon, tyrd yma," meddai'i thad, "edrych ar y glöynnod byw yma ar y blodau. Hon ydi'r iâr fach amryliw a weli di yn fan'acw mae'r glöyn peunog. Tydi o yn un tlws?"

Roedd Manon wedi gwirioni efo'r glöynnod hardd.

"O dad," meddai'n sydyn, "fe wnes i syrthio i ganol y danadl poethion ddoe a llosgi fy nghoesau. Wnewch chi ei tynnu nhw o'r gwraidd, ac mi fydd yna fwy o le i mi chwarae

wedyn yng ngwaelod yr ardd."

"Manon," meddai'i thad. "Gwranda, mi rydw i wedi plannu'r danadl poethion yng ngwaelod yr ardd i bwrpas arbennig."

"Beth yda chi'n feddwl?" holodd Manon.

"Funud neu ddau yn ôl mi roedden ni yn edrych ar y glöynnod yn hedfan o gwmpas y blodau yna. Ond wyddost ti lle mae'r glöynnod yna'n dodwy eu hwyau?" gofynnodd ei thad iddi.

"Na, dydw i ddim yn gwybod," meddai hithau.

"Wel mae'r ddau löyn hardd yna, yr iâr fach amryliw a'r glöyn peunog yn dodwy eu hwyau ar ddanadl poethion. Dyna pam rydw i wedi eu plannu yng ngwaelod yr ardd er mwyn denu mwy o loynnod byw i'r ardd yma. Ac ar ôl i'r wyau ddeor mi fydd y lindys bychain yn bwyta dail y danadl poethion...."

Torrodd Manon ar ei draws, "Ond fydda nhw ddim yn cael niwed, fel y ces i ddoe?"

"Wel, na fyddan yn rhyfedd iawn." meddai'r tad. "Y dail ydi bwyd y lindys. Felly wyt ti'n gweld dydw i ddim am gael gwared â'r danadl poethion. Manon fydd raid i ti gymryd mwy o bwyll pan fyddi di'n chwarae yng ngwaelod yr ardd. Mae'n rhaid i ni ofalu a helpu'r glöynnod byw."

Roedd Manon wedi anghofio am y danadl poethion ac roedd hi'n barod i helpu ei thad i helpu'r glöynnod byw.

O Dduw, mae yna bethau rhyfedd iawn yn digwydd yn y byd. Mae rhai pethau'n gallu bod yn ddrwg i rai ac yn ddaioni i eraill. Amen.

✦ Beth fedrwn ni ei wneud i helpu'r glöynnod byw?
✦ Gwyliwch yn ofalus y glöynnod fydd yn dod i ardd eich ysgol. Gwnewch restr ohonyn nhw.